



Trwydded Fan Defnydd Sengl Ar Gyfer Canolfannau Ailgylchu

Oes angen Trwydded Fan Defnydd Sengl arna i?

Os oes gennych fan neu gerbyd o fath masnachol a'ch bod yn dymuno defnyddio'r cerbyd hwn i gael gwared ar wastraff y cartref (eich cartref eich hun) yn ein canolfannau ailgylchu, bydd rhaid i chi wneud cais am Drwydded Fan.

Dim ond gwastraff y cartref gan drigolion Conwy mae ein canolfannau ailgylchu'n ei dderbyn. Mae'r Drwydded Fan yn dangos eich bod yn byw yng Nghonwy ac nad ydych yn fusnes sy'n ceisio cael gwared ar wastraff masnachol.

Os ydych yn berchennog ar fan breifat heb arwyddion arni, gallwch wneud cais am Drwydded Fan Domestig. Os ydych yn dymuno defnyddio fan wedi'u benthyg neu fan gwaith i gael gwared ar wastraff domestig, bydd angen Trwydded Fan Defnydd Sengl arnoch chi .

Ydw i'n gymwys i gael Trwydded Fan Defnydd Sengl?

Bydd rhaid i chi ddangos tystiolaeth bod y gwastraff yn dod o gartref yng Nghonwy trwy ddangos bil trydan, dŵr neu nwy neu ddatganiad banc.

Beth gallaf ei wneud os nad ydw i'n gymwys?

Rydym yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff ar gyfer eitemau mawr a nifer o wasanaethau casglu gwastraff masnachol. I gael rhagor o fanylion, ffoniwch 01492 575337 neu anfonwch e-bost at: affch@conwy.gov.uk. Neu gallwch gael gwared ar eich gwastraff mewn canolfan gwastraff masnachol neu trwy wasanaeth gwastraff masnachol gweler Yellow Pages.

Telerau ac Amodau

- 1) Caniateir mynediad i'r Ganolfan Ailgylchu (y Ganolfan) i gael gwared â gwastraff y cartref ac i ailgylchu'n unig.
- 2) Ni cheir cael gwared â gwastraff masnachol o ardaloedd y tu allan i Sir Conwy yn y safleoedd ailgylchu.
- 3) Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn cadw'r hawl i archwilio gwastraff sy'n cael ei gludo i'r ganolfan a gwrthod ei dderbyn os yw'r staff o'r farn ei fod yn wastraff masnachol.
- 4) Caniateir 2 Trwydded Defnydd Sengl ar gyfer pob cartref bob blwyddyn.
- 5) Mae'n rhaid cyflwyno eich Trwydded Defnydd Sengl i staff y safle wrth i chi gyrraedd.
- 6) Bydd staff y ganolfan yn gwirio bod y drwydded yn ddilys ar gyfer y cerbyd sy'n cludo'r gwastraff i'r safle. Bydd unrhyw anghysondeb rhwng manylion cofrestru'r cerbyd a'r drwydded yn arwain at wrthod cael defnyddio'r safle.
- 7) Os yw'r cerbyd wedi ei logi, bydd rhaid dangos y cytundeb llogi i staff y safle a chofnodir manylion cofrestru'r cerbyd a rhif y cytundeb .
- 8) Os ymyrrir â'r drwydded, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r safle ac i ddiddymu'r drwydded.
- 9) Bydd manylion pob cerbyd yn cael eu cofnodi wrth iddynt gyrraedd gan staff y safle. Defnyddir y wybodaeth am gerbydau ar gyfer monitro yn unig.
- 10) Mae'n rhaid cael gwared â'r holl ddeunyddiau sy'n cael eu cludo i'r ganolfan mewn dull priodol ac yn unol â chyfarwyddiadau staff y ganolfan.
- 11) Mae'r rhaid cyflwyno'r dogfennau priodol gyda'r cais am Drwydded Defnydd Sengl, fel tystiolaeth bod y gwastraff yn dod o gartref yn Sir Conwy.
- 12) Bydd y Cyngor yn adolygu'r telerau ac amodau o dro i dro ac mae'n cadw'r hawl i'w newid yn ôl y gofyn.
- 13) Ni fydd y Cyngor yn derbyn camdriniaeth geiriol na chorfforol na difrod i'w adeiladau dan unrhyw amgylchiadau.
- 14) Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais.

Ffurflen Gais am Drwydded Fan Defnydd Sengl

I wneud cais am Drwydded Fan Defnydd Sengl, a wnewch chi lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon yn ôl atom i'r cyfeiriad ar y dudalen nesaf gyda phrawf o'ch cyfeiriad **e.e. datganiad banc neu fil gwasanaethau**. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen telerau ac amodau'r drwydded a'ch bod yn eu deall yna, llofnodwch y datganiad isod.

Enw	
Cyfeiriad (Mae'n rhaid iddo fod yn Sir Conwy)	
Cod Post	
Rhif Ffôn	
Rhif Cofrestru'r Cerbyd	
Lliw	
Gwneuthuriad a Model	
Manylion y llythrennu	
Manylion y perchennog	
Y deunyddiau i'w cludo i'r ganolfan	

Rwyf yn derbyn y telerau ac amodau ac rwyf hefyd yn derbyn y bydd methu â chydymffurfio nhw yn arwain at ddi-ddymu'r Drwydded.



Enw (Printiwch):

Llofnod:

Dyddiad:

Tynnwch y dudalen hon yn rhydd a'i hanfon i'r cyfeiriad isod. Cof-iwch gynnwys tystiolaeth o'ch cyfeiriad, e.e. bil gwasanaethau.

Ar ôl llenwi eich ffurflen anfonwch hi i:

Amgylchedd, Ffyrdd A Chyfleusterau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Conwy Road
Mochdre
Bae Colwyn
LL28 5AB

Neu gallwch alw draw i'n gweld yn ein swyddfeydd ym Mochre gyda phrawf o'ch cyfeiriad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â'r Tîm Cyngori.

☎ 01492 575337

✉ affch@conwy.gov.uk

AR GYFER DEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG
Rhif y Drwydded :
Dyddiad rhoddwyd y Drwydded:
Dyddiad y daw'r Drwydded i ben:
Rhoddwyd gan: